Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau
## Cofrestru Buddiannau

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau
## Cofrestru Buddiannau

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o’r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Drakeford AS**
Llafur Cymru



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion a Chasgliadau** .......... **6**

**1. Cyflwyniad** .......... **9**

**2. Buddiannau cofrestradwy** .......... **11**

Taliadau (categorïau 1, 2, 3 a 5) .......... 11

Categori 4: Rhoddion, Lletygarwch, Buddion Materol neu Fantais Faterol .......... 13

Categori 6: Nawdd Ariannol .......... 14

Categori 7: Ymweliadau Tramor .......... 16

Categori 8: Tir ac Eiddo .......... 18

Categori 9: Cyfranddaliadau .......... 19

Categori 10: Aelodaeth/Cadeiryddiaeth o gyrff sy'n derbyn cyllid gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru .......... 19

**3. Newidiadau i Reolau Sefydlog Tri, Pedwar a Phump** .......... **22**

Rheol Sefydlog 3: Cofnodi Cyflogaeth Aelodau'r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn .......... 22

Rheol Sefydlog 4: Cofnodi'r Amser y bydd Aelod yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy .......... 23

Rheol Sefydlog 5: Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau .......... 24

**4. Newidiadau pellach i ofynion cofrestru** .......... **26**

Cofnodi dyddiad y cofrestru a dyddiad y diwygiadau i'r gofrestr .......... 26

Cyflwyno categori 'gwirfoddol' .......... 27

Cyfnod cofrestru .......... 29

Trothwyon .......... 29

**Atodiad 1: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **31**

Gwybodaeth ychwanegol .......... 31

# Rhagair y Cadeirydd

Mae cofrestru a datgan buddiannau yn egwyddor bwysig mewn Senedd. Mae'n rhoi tryloywder ynghylch buddiannau ariannol a buddiannau materol sydd gan Aelodau etholedig y gellid ystyried eu bod yn dylanwadu arnynt a'u hymddygiad yn y Senedd.

Pan ddechreuon ni'r ymchwiliad hwn, roedd naw mlynedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad diwethaf o'r rheolau. Gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr Aelodau newydd ar y gorwel yn dilyn etholiad 2026, roedd y Pwyllgor hwn yn teimlo ei bod yn amser priodol i ailystyried y rheolau hynny a sicrhau eu bod yn addas at y diben. Hoffwn ddiolch i Vikki Howells fel y Cadeirydd blaenorol, a chyn-Aelodau eraill y Pwyllgor am gychwyn ar y gwaith hwn.

Roedd symleiddio'r rheolau a chynyddu tryloywder yn nodau allweddol i ni fel Pwyllgor wrth adolygu'r darpariaethau presennol yn y Rheolau Sefydlog a'r Canllawiau. Yn ogystal ag argymell bod dyddiadau a gwerthoedd ariannol pethau fel rhoddion yn cael eu cofrestru'n gyson, rydym hefyd yn argymell y newid mwy sylweddol o gyflwyno categori gwirfoddol newydd ar y Gofrestr. Bydd hyn yn galluogi Aelodau i ychwanegu buddiannau nad ydynt yn cael eu cynnwys gan ofynion cofrestru ond y mae Aelodau'n ystyried eu bod yn werth eu cofnodi'n gyhoeddus. Gallai'r categori newydd gynnwys aelodaeth o gymdeithasau neu sefydliadau eraill, neu roddion a lletygarwch sy'n is na'r gwerth trothwy presennol er mwyn eu cofrestru. Gall caniatáu i Aelodau gofrestru buddiannau mewn categori o'r fath wella tryloywder, heb iddynt gael eu cynnwys gan y gofynion mwy ffurfiol.

Yn ogystal â chynyddu tryloywder, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen i leihau'r arfer o ryddhau gwybodaeth am aelodau'r teulu, dim ond am eu bod yn perthyn i Aelod etholedig. I'r perwyl hwnnw, cytunwyd bod cyhoeddi enwau aelodau o'r teulu a gyflogir gan Aelodau eraill ar y Gofrestr yn risg ddiangen i'w diogelwch, a byddwn yn dileu'r gofyniad hwn o'r Seithfed Senedd ymlaen.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn ac sydd wedi helpu i lunio'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn annog tryloywder a chysondeb, yn barod ar gyfer y Seithfed Senedd.

**Hannah Blythyn AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Argymhellion a Chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes bod categorïau 1, 2, 3 a 5 y Gofrestr, a restrir yn Rheol Sefydlog 2, yn cael eu huno'n un categori eang a ddefnyddir i gynnwys pob math o gyflogaeth yr Aelodau am dâl, wrth gadw'r lefel gyfredol o wybodaeth sydd ei hangen. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny. ....................Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 2 i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru swm y tâl a dderbynnir, neu y disgwylir ei dderbyn, ar gyfer pob gweithgarwch cofrestradwy. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny. .................... Tudalen 13

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd yn diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwerth neu werth amcangyfrifedig am roddion a dderbynnir, ac i'r ffigur hwnnw gael ei gyhoeddi, gan sicrhau bod y Senedd yn unol â seneddau eraill. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion i newid y Canllawiau yn unol â hynny. .................... Tudalen 14

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd yn diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol darparu symiau nawdd, a chyhoeddi'r symiau hynny. ....................Tudalen 16

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd yn diwygio'r Ffurflen i adlewyrchu'n fwy priodol gofyniad y Rheol Sefydlog ynghylch taliad neu fudd materol. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn newid y Canllawiau yn unol â hynny....................Tudalen 16

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwerth neu werth amcangyfrifedig ar gyfer ymweliadau tramor, ac i'r ffigur hwnnw gael ei gyhoeddi. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion i newid y Canllawiau yn unol â hynny. ....................Tudalen 17

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen fel bod angen i'r Aelodau nodi a yw eiddo'n cael ei gofrestru oherwydd ei werth, yr incwm sy'n deillio ohono, neu'r ddau, gan ddod â'r Senedd yn unol â seneddau

eraill. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn newid y Canllawiau yn unol â hynny. .......... Tudalen 18

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen fel bod angen i'r Aelodau nodi a ydynt yn landlord cofrestredig gyda Rhentu Doeth Cymru. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion i newid y Canllawiau yn unol â hynny. .......... Tudalen 19

**Argymhelliad 9.** Cred y Pwyllgor y dylid cyhoeddi'r wybodaeth ynghylch pa gategori y mae cyfranddaliadau'n dod o'i fewn, a bydd yn diwygio'r Canllawiau yn unol â hynny. .......... Tudalen 19

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 3 i ddileu'r cyfeiriad at gyflogi aelodau o deulu'r Aelod ei hun. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny. .......... Tudalen 23

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 3 i wneud eithriad ar gyfer cyhoeddi enw aelodau'r teulu lle maent yn cael eu cyflogi gan Aelodau eraill. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny. .......... Tudalen 23

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 4 i alluogi cofnodi amser sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cofrestradwy untro. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny. .......... Tudalen 24

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu dyddiad y cododd unrhyw newid wrth ddiweddaru'r Gofrestr, a bod y dyddiad hwn a'r dyddiad y diweddarwyd y Gofrestr yn cael eu cyhoeddi. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn diweddaru'r Canllawiau yn unol â hynny. .......... Tudalen 27

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y gellir diwygio Rheolau Sefydlog i gyflwyno categori 'gwirfoddol' newydd er mwyn galluogi'r Aelodau i gofnodi unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill y maent am eu gwneud yn gyhoeddus, ond nad ydynt yn cael eu cynnwys yn unrhyw un o'r categorïau gorfodol o dan Reol Sefydlog 2. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y

newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny. ........ Tudalen 28

**Casgliad 1.** Er mwyn sicrhau bod y Senedd yn fwy cyson â seneddau eraill, ac i gynyddu tryloywder, bydd y Pwyllgor yn cynnig newid y Canllawiau fel, o ddechrau'r Seithfed Senedd, bod y trothwy ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch yn cael ei newid o 0.5 y cant (£350 ar hyn o bryd) i 0.4 y cant (£280 ar hyn o bryd) o gyflog Aelod. ........ Tudalen 14

**Casgliad 2.** Bydd y Pwyllgor yn diwygio'r Canllawiau i adlewyrchu'r gofynion newydd yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025. ........ Tudalen 16

**Casgliad 3.** Bydd y Pwyllgor yn cynnig newid y Canllawiau i dynnu 'ymweliadau y telir amdanynt yn gyfan gwbl gan un o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd neu gan un o grwpiau gwleidyddol Senedd Ewrop' oddi ar y rhestr o eithriadau ar gyfer cofrestru ymweliadau tramor. ........ Tudalen 18

**Casgliad 4.** Bydd y Pwyllgor yn diwygio'r Canllawiau i newid teitl y categori hwn i 'Aelodaeth/Cadeirydd cyrff sy'n derbyn cyllid uniongyrchol neu anuniongyrchol Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Senedd', ac i ddarparu eglurder ychwanegol yn naratif y math o aelodaeth a chyrff y bwriedir iddynt gael eu cynnwys yn y gofyniad hwn. ........ Tudalen 20

**Casgliad 5.** Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r trothwyon ar gyfer cofrestru barhau i fod ynghlwm wrth ganran o gyflogau'r Aelodau, ond y dylid eu pennu ar ddechrau pob Senedd i roi mwy o sicrwydd i'r Aelodau, a thryloywder i'r cyhoedd ynghylch y trothwyon sy'n berthnasol am hyd Senedd. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau i roi'r newid hwn ar waith. ........ Tudalen 29

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ('y Pwyllgor') adolygiad o gofrestru a datgan buddiannau'r Aelodau gyda'r nod o sicrhau bod y rheolau a'r arferion yn addas at y diben ar gyfer y Seithfed Senedd. Roedd yr adolygiad sylweddol diwethaf a gynhaliwyd cyn hyn yn 2014, ac felly ystyriodd y Pwyllgor ei bod yn amserol ymgymryd â gwaith yn y maes hwn.

**2.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ar gofrestru a datgan buddiannau o 6 Mawrth i 24 Ebrill 2023. Ar ôl ystyried yr ymatebion, cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd â gwaith ar wahân ar gofrestru a datgan buddiannau. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chofrestru buddiannau.

**3.** Er mwyn llywio'r adolygiad ymhellach, ystyriodd y Pwyllgor y ffyrdd y mae seneddau eraill yn y DU yn rheoli eu cofrestrau priodol, a chymharodd hyn ag arferion cyfredol y Senedd. Defnyddiodd y Pwyllgor y wybodaeth hon, ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, i lunio cynigion drafft ar gyfer newid. Ffurfiodd y cynigion hyn ail ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda'r Aelodau, y Comisiynydd Safonau, y Llywydd, a'r Prif Weithredwr a'r Clerc.

**4.** Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, mae Hannah Blythyn AS a Peredur Owen Griffiths AS wedi datgan buddiant gan fod ganddynt aelodau teulu wedi'u cyflogi gan Aelodau eraill o'r Senedd.[1]

**5.** Mae'r adroddiad hwn yn gwneud nifer o argymhellion sy'n cynnig amrywiaeth o newidiadau i'r arfer presennol yn y Senedd, yn seiliedig ar gyfuniad o awgrymiadau a wnaed drwy'r ymgynghoriad a dysgu o arfer gorau mewn mannau eraill. Ar ôl ystyried natur y newidiadau, cynigir dod â'r holl newidiadau i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

**6.** Mae'r adroddiad hwn yn ystyried pob categori o fuddiannau cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2, yn ogystal â'r gofynion i Gofnodi Cyflogaeth Aelodau'r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn (Rheol Sefydlog 3), Cofnodi'r Amser y bydd Aelod yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy (Rheol Sefydlog 4) a Chofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau (Rheol Sefydlog 5). Yn olaf, mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â rhai materion cyffredinol a nodwyd sy'n cwmpasu'r holl gategorïau hyn.

**7.** Mae'r gofynion cofrestru o dan y Rheolau Sefydlog a'r Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau

[1] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, 28 Ebrill

eraill[2] yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a dim ond y Senedd all eu newid.

**8.** Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'r Llywydd yn rhagnodi ffurflenni y mae'n ofynnol i'r Aelodau eu cwblhau er mwyn diweddaru'r gofrestr. Felly, y Llywydd sy'n gyfrifol am awdurdodi unrhyw newidiadau i'r ffurflenni hynny.

**9.** Drwy gydol ei adolygiad, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar egwyddorion tryloywder, eglurder a chysondeb. Mae'r holl argymhellion wedi'u gwneud gyda'r egwyddorion hyn mewn golwg.

[2] Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill

# 2. Buddiannau cofrestradwy

Mae gan y Gofrestr 10 categori sy'n ymdrin â gwahanol fuddiannau y gallai fod gan yr Aelodau ac y mae angen iddynt eu cofnodi. Mae'r bennod hon yn nodi newidiadau arfaethedig y Pwyllgor i'r categorïau hyn.

## Taliadau (categorïau 1, 2, 3 a 5)

**10.** Ar hyn o bryd, mae gan y Senedd bedwar categori y mae'n ofynnol i'r Aelodau gofrestru gwahanol fathau o gyflogaeth am dâl oddi tanynt.

> *Categori 1: Cyfarwyddwyr* – Swyddi cyfarwyddwyr am dâl a ddelir gan yr Aelod neu hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, mewn cwmnïau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr nad ydynt yn cael tâl amdanynt yn unigol ond lle telir cyflog drwy gwmni arall yn yr un grŵp.
>
> *Categori 2: Cyflogaeth, swydd, proffesiwn a.y.yb am dâl* – Cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (heblaw aelodaeth o'r Senedd) y mae'r Aelod neu hyd y gŵyr yr Aelod, partner yr Aelod, yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod, partner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod sydd dros 16 oed unrhyw fuddiant ariannol ynddynt.
>
> *Categori 3: Enwau cleientiaid (gwasanaethau) – O ran Categorïau 1 (Cyfarwyddwyr) a 2 (Cyflogaeth, swydd, proffesiwn ayyb am dâl), mae'n ofynnol i'r Aelodau hefyd gofrestru enwau cleientiaid pan fydd y buddiannau y cyfeirir atynt uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod sydd dros 16 oed, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Senedd, neu sydd wedi'u cysylltu â hynny mewn unrhyw fodd.*
>
> *Categori 5: Contractau gyda Chomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru – Unrhyw dâl neu fudd materol y mae'r Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, partner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, yn ei gael gan unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall, sydd, hyd y gŵyr yr Aelod, wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda Chomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru, neu sy'n meddu ar gontract o'r fath.*

**11.** Nid oes yr un Aelod wedi cofrestru unrhyw beth o dan gategori 3 yn ystod y Chweched Senedd, a dim ond dau Aelod a ddefnyddiodd y categori hwn yn y Bedwaredd a'r Bumed Senedd. Dim ond dau Aelod sydd wedi defnyddio Categori 5 yn ystod y Chweched Senedd, a thri Aelod yn y Bumed Senedd.

**12.** Nododd y Pwyllgor fod gan Dŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban, a Chynulliad Gogledd Iwerddon un categori eang ar gyfer cofnodi taliadau, yn wahanol i'r Senedd.

**13.** Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, nododd y Comisiynydd Safonau ('y Comisiynydd') nad oedd o'r farn bod unrhyw wybodaeth berthnasol wedi'i chael drwy gofrestriadau yng nghategori 5 (contractau gyda Llywodraeth Cymru na Chomisiwn y Senedd).

**14.** O ystyried y defnydd anaml o gategorïau 3 a 5, mae'r Pwyllgor o'r farn bod gwerth cyfyngedig mewn cael pedwar categori ar wahân lle mae'n ofynnol i'r Aelodau gofrestru gwahanol fathau o gyflogaeth. Cytunodd y Pwyllgor y dylid uno categorïau 1, 2, 3 a 5 yn un categori eang a ddefnyddir i gynnwys pob math o gyflogaeth yr Aelodau am dâl, wrth gadw'r lefel gyfredol o wybodaeth sydd ei hangen gan y pedwar categori.

**15.** Mae holl ddeddfwrfeydd eraill y DU, ac eithrio Tŷ'r Arglwyddi, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau nodi swm y tâl y maent yn ei dderbyn neu'n disgwyl ei dderbyn ar gyfer pob gweithgarwch cofrestradwy. Nid yw rheolau'r Senedd yn gofyn am gofrestru'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog a'r Canllawiau i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru swm y tâl a dderbynnir, neu y disgwylir ei dderbyn, ar gyfer pob gweithgarwch cofrestradwy. Cynigir nad yw hyn yn berthnasol i weithgareddau â thâl partneriaid na phlant dibynnol.

**16.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, mynegodd y Comisiynydd gefnogaeth i'r ddau gynnig hyn. Ni wnaeth unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i dargedu wrthwynebu'r naill gynnig na'r llall.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes bod categorïau 1, 2, 3 a 5 y Gofrestr, a restrir yn Rheol Sefydlog 2, yn cael eu huno'n un categori eang a ddefnyddir i gynnwys pob math o gyflogaeth yr Aelodau am dâl, wrth gadw'r lefel gyfredol o wybodaeth sydd ei hangen. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 2 i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru swm y tâl a dderbynnir, neu y disgwylir ei dderbyn, ar gyfer pob gweithgarwch cofrestradwy. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny.

## Categori 4: Rhoddion, Lletygarwch, Buddion Materol neu Fantais Faterol

*Categori 4: Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a ragnodir mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, sefydliad neu berson ac sy'n deillio o aelodaeth o'r Senedd neu'n sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd*

**17.** Penderfynodd y Senedd ar 10 Mai 2006 fod gwerth penodedig rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae'n ofynnol eu cofrestru yn 0.5 y cant o gyflog blynyddol crynswth sylfaenol Aelod. Felly, y trothwy ar hyn o bryd yw £350, er bod yr Aelodau hefyd yn aml yn dewis cofrestru rhoddion ac ati islaw'r gwerth hwn.

**18.** Mae'r Ffurflen yn gofyn a yw'r rhodd, lletygarwch neu fudd materol yn fwy na'r trothwy o 0.5 y cant o gyflog gros blynyddol Aelod (h.y. y trothwy), ond ni chyhoeddir yr ymateb hwn.

**19.** Nodwyd y ffaith nad yw'n ofynnol i'r Aelodau ar hyn o bryd ddarparu gwerth na gwerth amcangyfrifedig ar gyfer rhoddion a lletygarwch gan ymatebydd i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a oedd hefyd o'r farn y byddai gwneud hynny'n arfer gorau. Os yw'r Aelodau'n darparu gwerth neu werth amcangyfrifedig, yna cyhoeddir y wybodaeth hon, ond ar hyn o bryd nid oes gofyniad i ddarparu'r wybodaeth hon.

**20.** Nododd y Pwyllgor mai un o'r cofnodion mwyaf cyffredin a gofrestrir o dan y categori hwn yw tocynnau a phecynnau lletygarwch i ddigwyddiadau chwaraeon sy'n aml yn disgyn o dan y trothwy o £350, er bod llawer o'r Aelodau'n penderfynu eu cofrestru beth bynnag.

**21.** Pan ymgynghorodd y Pwyllgor ar ei gynigion drafft, mynegodd y Comisiynydd gefnogaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwerth neu

werth amcangyfrifedig ar gyfer rhoddion, ac i ostwng y trothwy y mae angen datgan rhoddion uwchlaw. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cynnig.

**22.** Nododd y Pwyllgor, mewn seneddau eraill yn y DU, fod y gwerth y mae'n ofynnol i'r Aelodau gofrestru unrhyw roddion, buddion neu letygarwch arno yn is na gwerth y Senedd. Ar ben hynny, ar wahân i Dŷ'r Arglwyddi, y Senedd yw'r unig senedd yn y DU nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwerth neu werth amcangyfrifedig unrhyw roddion, lletygarwch, budd materol neu fantais faterol a dderbynnir, ac i'r wybodaeth honno gael ei chyhoeddi.

**23.** Nododd y Pwyllgor fod y trothwy presennol o £350 (sef 0.5% o gyflog Aelod) yn uwch na throthwy holl ddeddfwrfeydd eraill y DU, sy'n amrywio o £250 i £322. Ein barn ni yw y dylid gostwng y trothwy ar gyfer Aelodau o'r Senedd i'w wneud yn fwy cyson â'r arfer mewn mannau eraill, ac mae'r Pwyllgor o'r farn bod trothwy wedi'i osod ar 0.4% o gyflog Aelod, a fyddai'n rhoi gwerth cyfredol o £280, yn darparu'r cydbwysedd cywir.

**24.** Cytunodd y Pwyllgor, er mwyn hwyluso tryloywder a chymhwyso, y dylai'r trothwy aros yr un fath drwy gydol tymor y Senedd. Trafodir hyn ymhellach ym mhennod pedwar.

**Casgliad 1.** Er mwyn sicrhau bod y Senedd yn fwy cyson â seneddau eraill, ac i gynyddu tryloywder, bydd y Pwyllgor yn cynnig newid y Canllawiau fel, o ddechrau'r Seithfed Senedd, bod y trothwy ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch yn cael ei newid o 0.5 y cant (£350 ar hyn o bryd) i 0.4 y cant (£280 ar hyn o bryd) o gyflog Aelod.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd yn diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwerth neu werth amcangyfrifedig am roddion a dderbynnir, ac i'r ffigur hwnnw gael ei gyhoeddi, gan sicrhau bod y Senedd yn unol â seneddau eraill. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion i newid y Canllawiau yn unol â hynny.

## Categori 6: Nawdd Ariannol

*Categori 6: nawdd ariannol (a) fel ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd, pan fydd y nawdd mewn unrhyw achos, hyd y gŵyr yr Aelod, yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (b) fel Aelod o'r Senedd oddi wrth unrhyw unigolyn neu sefydliad. Wrth gofrestru buddiant o'r fath, rhaid i'r Aelod ddatgan a yw unrhyw nawdd o'r fath yn cynnwys unrhyw daliad i'r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol*.

**25.** Ymhellach i'r hyn a nodir o dan Gategori 6, mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ('PPERA 2000')[3] hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru unrhyw rodd iddynt fel Aelod o'r Senedd gan unrhyw berson neu sefydliad sy'n fwy na £500 mewn unrhyw flwyddyn.

**26.** Mae gan Seneddau eraill y DU reolau gweddol debyg ynghylch cofrestru'r cymorth a dderbynnir naill ai fel ymgeisydd neu fel Aelod. Mae gan seneddwyr ledled y DU hefyd rwymedigaethau statudol i wirio, cofnodi ac adrodd buddiannau penodol yn uniongyrchol i'r Comisiwn Etholiadol, fel y nodir yn PPERA 2000.

**27.** Mae'r gofyniad i gofrestru ffynhonnell unrhyw gyfraniad at ei dreuliau etholiadol sy'n fwy na 25 y cant o gyfanswm y treuliau hynny yn gymwys i Aelodau etholaethol yn unig. Nid yw'n ofynnol cofrestru gwariant Aelodau rhanbarthol ar etholiadau, gan fod Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn trin y gwariant fel gwariant gan y blaid wleidyddol y mae'r Aelod ar ei rhestr ranbarthol.

**28.** Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025[4] ('y Gorchymyn'), a osodwyd ar ffurf drafft ar 8 Mai 2025 ac a gymeradwywyd gan y Senedd ar 8 Gorffennaf 2025, yn nodi'r gofynion cyfreithiol newydd ar gyfer ymgeiswyr o ran yr hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn ffurflen gwariant ymgyrch.

**29.** Mae'r newid i'r system etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd yn y dyfodol yn golygu y bydd dau fath o Aelodau o hyd at ddibenion noddi ymgeiswyr o 2026 ymlaen. Fodd bynnag, bydd y gwahaniaeth presennol rhwng etholaeth a rhanbarth yn cael ei ddisodli gan 'ymgeiswyr rhestr plaid' ac 'ymgeiswyr unigol'.

**30.** Dim ond mewn perthynas ag ymgeiswyr unigol sy'n sefyll yn etholiadau'r Senedd y bydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyllido a gwariant ymgyrchoedd yn berthnasol. Caiff treuliau ymgeiswyr rhestr plaid eu trin fel gwariant plaid ac felly cânt eu cyfrif o dan PPERA 2000 yn yr un modd ag ymgeiswyr rhestr ranbarthol mewn etholiadau blaenorol.

**31.** O fis Mai 2026 ymlaen, dim ond i'r Aelodau hynny a etholwyd fel ymgeiswyr unigol y gall y gofynion ynghylch cofrestru nawdd fel ymgeisydd fod yn berthnasol. Bydd y gofynion ynghylch cofrestru nawdd a dderbynnir fel Aelod yn parhau i fod yn berthnasol i bob Aelod. Cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio'r canllawiau i adlewyrchu'r gofynion newydd yn y Gorchymyn.

---

[3] Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
[4] Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

**32.** Nododd y Pwyllgor, er bod y Ffurflen yn gofyn i'r Aelodau roi gwerth ariannol am unrhyw nawdd a dderbynnir, boed hynny fel ymgeisydd neu Aelod, nad yw'r ffigur hwn wedi'i gyhoeddi ar y gofrestr yn gyffredinol. Mae'r rhesymau dros yr arfer hwn yn aneglur ac mae'n rhoi'r Senedd mewn gwrthdaro ag arfer mewn seneddau eraill y DU. Cytunodd y Pwyllgor i ddiwygio'r Canllawiau i sicrhau bod y Senedd yn unol â seneddau eraill drwy gyhoeddi gwerth y nawdd a dderbyniwyd.

**33.** Nododd y Pwyllgor hefyd fod Categori 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau 'ddatgan a yw unrhyw nawdd o'r fath [fel ymgeisydd neu Aelod] yn cynnwys unrhyw daliad i'r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol'. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cwestiwn ar y Ffurflen sy'n gofyn i Aelodau ateb 'ydy' neu 'nac ydy' i'r cwestiwn 'A yw'r nawdd yn cynnwys unrhyw daliad neu fudd materol ichi?'. O ystyried y byddai unrhyw nawdd, yn ôl y diffiniad, yn cynnwys o leiaf un o'r pethau hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn, er mwyn adlewyrchu gofyniad y Rheol Sefydlog yn briodol, y dylai'r cwestiwn ofyn i'r Aelodau gadarnhau a oedd y nawdd ar ffurf taliad, neu o fudd materol. Cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio'r Ffurflen i adlewyrchu'n fwy priodol gofyniad y Rheol Sefydlog ynghylch taliad neu fudd materol.

**Casgliad 2.** Bydd y Pwyllgor yn diwygio'r Canllawiau i adlewyrchu'r gofynion newydd yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd yn diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol darparu symiau nawdd, a chyhoeddi'r symiau hynny.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd yn diwygio'r Ffurflen i adlewyrchu'n fwy priodol gofyniad y Rheol Sefydlog ynghylch taliad neu fudd materol. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn newid y Canllawiau yn unol â hynny.

## Categori 7: Ymweliadau Tramor

*Categori 7: yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad gan y Senedd, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Senedd neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd pan na fydd cost unrhyw ymweliad o'r fath wedi'i dalu'n llwyr gan yr Aelod neu ag arian a ddarparwyd gan y Senedd neu gan Senedd y Deyrnas Unedig neu unrhyw sefydliad y mae'r Senedd yn aelod ohono;*

**34.** Penderfynodd y Senedd ar 19 Mai 1999 nad oes angen cofrestru'r categorïau isod o ymweliadau ond y dylid eu datgan yn nhrafodion y Senedd pan fyddant yn berthnasol.

a. Ymweliadau y telir amdanynt gan, neu yr ymgymerir â hwy ar ran y Senedd neu a wneir ar ran corff rhyngwladol y perthyn y Senedd iddo;

b. Ymweliadau tramor gyda, neu ar ran, un o bwyllgorau'r Senedd;

c. Ymweliadau a drefnir gan ac y telir amdanynt yn gyfan gwbl gan blaid wleidyddol yr Aelod ei hun; ac

d. Ymweliadau y telir amdanynt yn gyfan gwbl gan un o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd neu gan un o grwpiau gwleidyddol Senedd Ewrop.

**35.** Cytunodd y Pwyllgor, yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, y dylai 'ymweliadau y telir amdanynt yn gyfan gwbl gan un o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd neu gan un o grwpiau gwleidyddol Senedd Ewrop' gael eu tynnu oddi ar y rhestr o eithriadau ar gyfer cofrestru ymweliadau tramor.

**36.** Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r Aelodau roi dyddiad, lleoliad a diben yr ymweliad, ynghyd ag enw'r llywodraeth, y corff, y cwmni neu'r unigolyn a dalodd y gost. Lle'r ysgwyddwyd rhan yn unig o'r gost gan ffynhonnell allanol, dylid nodi'r manylion hynny'n gryno. Mae'r wybodaeth hon i gyd yn cael ei chyhoeddi.

**37.** Nid yw'n ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwerth neu werth amcangyfrifedig yr ymweliad, ond mae rhai yn dewis gwneud hynny. Pan ddarperir yr wybodaeth hon, fe'i cyhoeddir hefyd.

**38.** Nododd y Pwyllgor, mewn seneddau eraill yn y DU, ei bod yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwerth neu werth amcangyfrifedig ar gyfer unrhyw ymweliadau tramor a gofrestrwyd, gyda'r wybodaeth honno'n cael ei chyhoeddi wedyn. Cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio rheolau'r Senedd i sicrhau bod y Senedd yn fwy cyson â seneddau eraill, ac er mwyn cynyddu tryloywder, y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwerth neu werth amcangyfrifedig ar gyfer ymweliadau tramor, a dylid cyhoeddi'r ffigur hwnnw.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwerth neu werth amcangyfrifedig ar gyfer ymweliadau tramor, ac i'r ffigur hwnnw gael ei gyhoeddi. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion i newid y Canllawiau yn unol â hynny.

**Casgliad 3.** Bydd y Pwyllgor yn cynnig newid y Canllawiau i dynnu 'ymweliadau y telir amdanynt yn gyfan gwbl gan un o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd neu gan un o grwpiau gwleidyddol Senedd Ewrop' oddi ar y rhestr o eithriadau ar gyfer cofrestru ymweliadau tramor.

## Categori 8: Tir ac Eiddo

*Categori 8: unrhyw dir ac eiddo i'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo i bartner yr Aelod neu i unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y'i rhagnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd neu y ceir incwm sylweddol ohono, ac eithrio unrhyw gartref a ddefnyddir at ddibenion preswylfa bersonol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod*.

**39.** Penderfynodd y Senedd ar 19 Mai 1999 fod "gwerth sylweddol" yn golygu swm sy'n cyfateb i gyflog blynyddol crynswth sylfaenol Aelod o'r Senedd (£72,057 ar hyn o bryd) a bod "incwm sylweddol" yn golygu swm sy'n cyfateb i 10 y cant o gyflog blynyddol crynswth sylfaenol Aelod o'r Senedd (£7,205.70 ar hyn o bryd). Nid oes angen cofrestru symiau penodol.

**40.** Mae'n ofynnol i'r Aelodau gynnwys natur yr eiddo, a lleoliad cyffredinol yr eiddo, ond yn wahanol i seneddau eraill yn y DU, nid yw'n ofynnol iddynt nodi a yw'r eiddo'n cael ei gofrestru oherwydd ei 'werth sylweddol' neu oherwydd bod 'incwm sylweddol' yn deillio ohono. Cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio rheolau'r Senedd i gynyddu tryloywder drwy gysoni'r Senedd â seneddau eraill, a'i gwneud yn ofynnol i'r Aelodau nodi a yw eiddo'n cael ei gofrestru oherwydd ei 'werth sylweddol' neu oherwydd bod 'incwm sylweddol' yn deillio ohono, ac y dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon.

**41.** Roedd ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus y Pwyllgor yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol i'r Aelodau ddatgan yn benodol lle mae'n landlord cofrestredig â Rhentu Doeth Cymru.[5] Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig hwn yn ail ymgynghoriad y Pwyllgor.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen fel bod angen i'r Aelodau nodi a yw eiddo'n cael ei gofrestru oherwydd ei werth, yr incwm sy'n deillio ohono, neu'r ddau, gan ddod â'r Senedd yn unol â seneddau eraill. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn newid y Canllawiau yn unol â hynny.

[5] Rhentu Doeth Cymru

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen fel bod angen i'r Aelodau nodi a ydynt yn landlord cofrestredig gyda Rhentu Doeth Cymru. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion i newid y Canllawiau yn unol â hynny.

## Categori 9: Cyfranddaliadau

*Categori 9: enwau cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant llesiannol ynddynt, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant llesiannol ynddynt, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn fwy nag un y cant o'r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu'n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a ragnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd*.

**42.** Penderfynodd y Senedd ar 10 Mai 2006 fod rhaid cofrestru yng nghyswllt cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn llai nag un y cant o'r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd lle bo gwerth y cyfranddaliadau hynny yn fwy na 50 y cant o gyflog Senedd blynyddol crynswth sylfaenol Aelod o'r Senedd ar 5 Ebrill blaenorol.

**43.** Wrth gyflwyno cofnod o dan y categori hwn, mae'n ofynnol i'r Aelodau ddatgan a yw'r cyfranddaliadau'n dod o fewn a) neu b) uchod. Fodd bynnag, yn wahanol i seneddau eraill yn y DU, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar hyn o bryd. Nid yw'n glir pam mae hyn yn wir. Cytunodd y Pwyllgor, er mwyn cynyddu tryloywder, ac i sicrhau bod y Senedd yn gyson â seneddau eraill, y dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon - y mae'n ofynnol i'r Aelodau ei darparu eisoes.

**Argymhelliad 9.** Cred y Pwyllgor y dylid cyhoeddi'r wybodaeth ynghylch pa gategori y mae cyfranddaliadau'n dod o'i fewn, a bydd yn diwygio'r Canllawiau yn unol â hynny.

## Categori 10: Aelodaeth/Cadeiryddiaeth o gyrff sy'n derbyn cyllid gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru

*Categori 10: aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu'n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol â chyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru, lle y*

*mae'r Aelod yn gwybod, neu y dylai fod wedi gwybod, am y cyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru.*

**44.** Mae'r canllawiau'n nodi bod y term 'aelodaeth' yn y categori hwn yn cynnwys y canlynol:

a. Unrhyw un sy'n dal swydd, er enghraifft, cadeirydd, trysorydd neu lywydd sefydliad, ond mae hefyd yn cynnwys ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr, noddwyr ac is-lywyddion;

b. Aelodaeth o gorff llywodraethu neu fwrdd sefydliad;

c. Unrhyw swydd sy'n derbyn tâl, boed yn weithredol neu'n weinyddol, o fewn y sefydliad neu sy'n ymwneud â'r sefydliad.

**45.** Nododd y Pwyllgor, er gwaethaf yr amgylchiadau penodol iawn a nodir yn y Canllawiau ynghylch pryd y mae'n ofynnol cofrestru, mae'r Aelodau yn aml yn cofrestru aelodaeth neu gadeiryddiaeth cyrff llywodraethu sefydliadau nad ydynt yn derbyn cyllid Comisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru o dan y categori hwn. Mae'r Aelodau hefyd yn defnyddio'r categori hwn i gofrestru aelodaeth 'gyffredin' o ystod eang o glybiau, cymdeithasau a sefydliadau, yn hytrach na'r math o aelodaeth a nodir yn y Canllawiau.

**46.** Ystyriodd y Pwyllgor nad oedd hyn yn arfer gorau, ac felly cytunodd y dylid gwneud newidiadau i ddarparu eglurder. Mae cynigion y Pwyllgor a nodir yn paragraffau 66-72 mewn perthynas â chategori 'gwirfoddol' newydd wedi'u cynllunio i ddarparu modd o gynnwys aelodaeth gyffredin o gymdeithasau neu gyrff sy'n derbyn cyllid Comisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag aelodaeth cyrff llywodraethu sefydliadau nad ydynt yn derbyn y cyllid hwnnw. Cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio teitl y categori hwn i roi mwy o eglurder, gan ei gwneud yn glir ei fod yn cyfeirio at gyllid uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan gynnwys drwy gyrff hyd braich. Cytunodd y Pwyllgor i ymgynghori ar y cynigion hyn.

**47.** Roedd un ymateb a gafwyd i ail ymgynghoriad y Pwyllgor yn cytuno â'r cynigion i ddiwygio teitl Categori 10, i adlewyrchu'n well yr hyn sydd angen ei gofrestru. Roedd yr ymateb hwn hefyd yn awgrymu gwneud cyfeiriad penodol at sefydliadau a ariennir gan gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn y Canllawiau i'r Aelodau, er mwyn rhoi eglurder ynghylch y gofyniad i gofrestru aelodaeth sefydliadau sy'n cael grantiau gan gyrff hyd braich o'r fath.

**Casgliad 4.** Bydd y Pwyllgor yn diwygio'r Canllawiau i newid teitl y categori hwn i 'Aelodaeth/Cadeirydd cyrff sy'n derbyn cyllid uniongyrchol neu anuniongyrchol

Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Senedd', ac i ddarparu eglurder ychwanegol yn naratif y math o aelodaeth a chyrff y bwriedir iddynt gael eu cynnwys yn y gofyniad hwn.

# 3. Newidiadau i Reolau Sefydlog Tri, Pedwar a Phump

Yn ogystal â'r buddiannau cofrestradwy a restrir o dan Reol Sefydlog dau, mae nifer o Reolau Sefydlog perthnasol sy'n nodi gofynion cofrestru. Ystyriodd y Pwyllgor yr angen am unrhyw newidiadau i'r rhain fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

## Rheol Sefydlog 3: Cofnodi Cyflogaeth Aelodau'r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn

**48.** Mae Rheol Sefydlog 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod roi hysbysiad os yw'n cyflogi (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) aelod o'r teulu - neu aelod o deulu Aelod arall - gan ddefnyddio arian y Comisiwn.

**49.** Mae Rheol Sefydlog 3.2 yn diffinio 'aelod o deulu' fel partner, plentyn, ŵyr neu wyres, rhiant, taid neu nain, brawd neu chwaer, nai neu nith, neu ewythr neu fodryb Aelod neu bartner Aelod, ac mae'n cynnwys llys-berthnasau, hanner perthnasau, perthnasau maeth a pherthnasau mabwysiadol. Mae'r Rheol Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu amrywiol wybodaeth, a gyhoeddir, gan gynnwys enw llawn y cyflogai a pherthynas y cyflogai â'r Aelod.

**50.** Roedd Penderfyniad 2019-20 ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau[6], yn dileu'r ddarpariaeth i Aelodau gyflogi aelodau o'u teulu eu hunain gyda chronfeydd y Comisiwn o ddechrau'r Seithfed Senedd. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, bydd angen i Reol Sefydlog 3.1 adlewyrchu, yn y dyfodol, mai dim ond aelodau o deulu Aelodau eraill y bydd modd iddynt eu cyflogi (ac felly angen iddynt gofrestru). Cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio Rheolau Sefydlog i ddileu'r cyfeiriad at gyflogi aelodau o deulu'r Aelod ei hun mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd.

**51.** Roedd ymgynghoriad gwreiddiol y Pwyllgor yn cynnwys y Comisiynydd a'r Grŵp Llafur yn gwneud sylwadau negyddol am y gofyniad i ddarparu enw llawn aelod o'r teulu a gyflogir gan Aelod gyda chymorth arian y Comisiwn. Roedd y

[6] Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau

ddau ymateb o'r farn y dylid dileu'r gofyniad i enwi aelodau'r teulu, lle maent yn cael eu cyflogi gan Aelodau eraill, ar sail diogelwch a phreifatrwydd.

**52.** Ystyriodd y Pwyllgor y cynrychioliadau hyn, ac roedd ei ail ymgynghoriad yn cynnwys cynnig y dylid naill ai ddileu'r gofyniad i ddarparu'r enw, neu y dylid darparu'r enw ond peidio â'i gyhoeddi. Mewn ymateb, cynigiodd y Comisiynydd y dylid darparu'r enw i'r Cofrestrydd ond nid ei gyhoeddi yn y gofrestr, ac y gellid ei ddarparu i'r Comisiynydd Safonau ar gais, heb yr angen am Hysbysiad i Gynhyrchu o dan adran 12 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.[7]

**53.** Cytunodd y Pwyllgor â chynnig y Comisiynydd, ac felly mae'n argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 3.3 fel nad oes angen cyhoeddi enw'r aelod o'r teulu.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 3 i ddileu'r cyfeiriad at gyflogi aelodau o deulu'r Aelod ei hun. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 3 i wneud eithriad ar gyfer cyhoeddi enw aelodau'r teulu lle maent yn cael eu cyflogi gan Aelodau eraill. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny.

## Rheol Sefydlog 4: Cofnodi'r Amser y bydd Aelod yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy

**54.** Ystyrir bod y buddiannau o dan gategorïau 1 a 2 yn 'weithgarwch cofrestradwy' at ddibenion Rheol Sefydlog 4, sy'n golygu bod rhaid i'r Aelodau wneud hysbysiad hefyd o dan Reol Sefydlog 4 ar yr un pryd â chofrestriad o dan gategori 1 neu 2, gan nodi sawl awr yr wythnos y mae'r Aelod yn ei neilltuo ar gyfartaledd i bob gweithgarwch cofrestradwy.

**55.** Nododd y Pwyllgor nad yw'r bandiau o dan Reol Sefydlog 4.3 (llai na 5 awr yr wythnos; rhwng 5 ac 20 awr yr wythnos; mwy nag 20 awr yr wythnos) yn cael eu cymhwyso'n hawdd i ddarnau unigol o waith lle nad yw cyfartaledd wythnosol yn briodol, yn gywir nac yn dryloyw. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Aelodau allu

[7] Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

cofnodi'r amser a dreuliwyd mewn gweithgarwch cofrestradwy untro, drwy ddarparu'r amser a dreuliwyd ar y gweithgarwch penodol hwnnw.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 4 i alluogi cofnodi amser sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cofrestradwy untro. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny.

## Rheol Sefydlog 5: Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau

**56.** Mae Rheol Sefydlog 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau roi hysbysiad ynglŷn ag unrhyw aelodaeth, neu safle o reolaeth neu ofalaeth gyffredinol, mewn cymdeithas breifat neu glwb preifat sydd â gofynion ynglŷn â derbyn aelodau ac eithrio talu tanysgrifiad a/neu gytuno â thelerau ac amodau aelodaeth yn y gymdeithas neu'r clwb.

**57.** Cafodd y Rheol Sefydlog bresennol ei llunio yn 2002, pan gymerodd le'r Rheol Sefydlog a oedd yn bodoli adeg sefydlu'r Cynulliad gan ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion yn benodol. Daeth y newid yn 2002 yn sgil ystyriaeth gan y Pwyllgor Safonau o gyngor cyfreithiol ar y pryd, bod enwi'r Seiri Rhyddion yn benodol yn debygol o beri her gyfreithiol o dan Erthyglau 8 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. O ganlyniad, ehangwyd y Rheol Sefydlog i gynnwys unrhyw glwb preifat neu gymdeithas breifat sydd â gofynion ynglŷn â derbyn aelodau.

**58.** Nododd y Pwyllgor nad oes gan unrhyw senedd arall yn y DU ofyniad cymharol ynghylch aelodaeth o glybiau neu gymdeithasau preifat, a bod hysbysiadau o aelodaethau gwirioneddol o glybiau neu gymdeithasau preifat wedi bod yn brin. Mae rhai Aelodau wedi defnyddio'r gofyniad Rheol Sefydlog 5 i roi hysbysiad ynglŷn â'u haelodaeth o sefydliadau a chymdeithasau na fyddai'n ymddangos eu bod yn cyd-fynd â'r diffiniad caeth yn y Rheol Sefydlog, megis clybiau chwaraeon lleol, undebau llafur, neu gymdeithasau proffesiynol. Mae perygl y bydd hyn yn peri dryswch ynghylch natur y sefydliadau hynny, ac yn gwanhau defnyddioldeb y gofyniad Rheol Sefydlog 5 ei hun.

**59.** Fel y nodwyd uchod (paragraff 44), mae mater tebyg wedi'i nodi yng nghyd-destun Categori 10: Aelodaeth/Cadeiryddiaeth o gyrff sy'n derbyn cyllid gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru, a bwriad y categori hwn yw cynnwys swyddi o ddylanwad yn unig o fewn cyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus, ond a ddefnyddir mewn gwirionedd i gofrestru aelodaeth o bob math o gymdeithasau

a sefydliadau. Mae'r cynnig i gynnwys categori 'gwirfoddol' newydd (paragraffau 66-72) yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn drwy ddarparu llwybr amgen i'r Aelodau gofrestru eu haelodaeth o sefydliadau o'r fath.

# 4. Newidiadau pellach i ofynion cofrestru

Ochr yn ochr â newidiadau i gategorïau penodol yn y Gofrestr a'r Rheolau Sefydlog perthnasol, ystyriodd y Pwyllgor y gofynion cofrestru yn fwy cyffredinol, a nododd y newidiadau posibl a ganlyn.

## Cofnodi dyddiad y cofrestru a dyddiad y diwygiadau i'r gofrestr

**60.** Nid yw'r dyddiad y daeth newid i fuddiannau Aelod i rym yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd, ac nid yw'r dyddiad y diweddarodd yr Aelod y Gofrestr i gynnwys y newid chwaith.

**61.** Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i'r Aelodau ddarparu dyddiad y digwyddodd y newid wrth lenwi'r Ffurflen, er bod yr Aelodau'n dewis darparu'r wybodaeth hon beth bynnag, ac ar gyfer rhai cofnodion mae'n wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd e.e. gemau chwaraeon. Pan fydd Aelodau'n darparu'r dyddiad, caiff ei gyhoeddi, oni ofynnir fel arall.

**62.** Nododd y Pwyllgor fel y mae ar hyn o bryd, nad oes ffordd o nodi pryd y cafodd cofnod ar y Gofrestr ei ychwanegu neu ei ddiwygio. O ganlyniad, nid oes modd gwahaniaethu rhwng buddiannau a fydd wedi bod ar y Gofrestr o ddechrau Senedd a rhai a ychwanegwyd yn fwy diweddar, na chael gwybod pryd y daeth buddiant i ben.

**63.** Cytunodd y Pwyllgor fod dyddiadau'n rhoi gwybodaeth ystyrlon am ba fuddiannau oedd gan yr Aelodau ar wahanol adegau, ac y byddai cysoni'r Senedd â seneddau eraill drwy gyhoeddi'r dyddiadau y digwyddodd newid, a pha un y cofrestrwyd y newid, yn cynyddu tryloywder y Gofrestr gyfan.

**64.** O dan y Protocol rhwng y Comisiynydd Safonau, y Senedd, a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, y Clerc sydd â'r ddyletswydd, pan ddaw'n ymwybodol o dorri neu'r posibilrwydd o dorri'r gofynion o ran cofrestru buddiannau, o gyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd Safonau ar y mater i ymchwilio iddo. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys hysbysu'r Comisiynydd o gofrestriadau hwyr.

**65.** Mae'r diffyg gofyniad cyson ar hyn o bryd i ddarparu'r dyddiad y digwyddodd y newid yn golygu, yn aml, mai'r Aelodau sy'n gwirfoddoli i roi'r wybodaeth honno sy'n cael eu hatgyfeirio oherwydd cofrestriadau hwyr. Yn ogystal â mwy o

dryloywder i'r cyhoedd, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai ei gwneud yn ofynnol darparu dyddiad ar draws pob categori yn darparu mwy o gysondeb ac eglurder i bob Aelod ynghylch eu cyfrifoldebau yn hyn o beth. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd adran 36(7) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn drosedd i Aelod gymryd rhan mewn unrhyw drafodion heb fod wedi cydymffurfio â'r gofynion yn Rheol Sefydlog 2.

**66.** Ni fynegwyd unrhyw bryderon ynghylch y cynnig hwn yn dilyn ail ymgynghoriad y Pwyllgor, a nododd y Comisiynydd nad oedd yn disgwyl y byddai newid o'r fath yn arwain at gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Llywydd y dylid diwygio'r Ffurflen i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu dyddiad y cododd unrhyw newid wrth ddiweddaru'r Gofrestr, a bod y dyddiad hwn a'r dyddiad y diweddarwyd y Gofrestr yn cael eu cyhoeddi. Os bydd y Llywydd yn cytuno, bydd y Pwyllgor yn diweddaru'r Canllawiau yn unol â hynny.

## Cyflwyno categori 'gwirfoddol'

**67.** Mae gan lawer o'r seneddau eraill yn y DU naill ai categori 'amrywiol' neu gategori 'gwirfoddol'. Mae gan Dŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi a Chynulliad Gogledd Iwerddon gategorïau 'amrywiol' y mae rhaid i'r Aelodau gofrestru gweithgarwch â thâl odanynt nad yw'n dod yn glir o dan unrhyw gategori arall.

**68.** Mae gan Senedd yr Alban ar y llaw arall gategori 'gwirfoddol'. Yma gall yr Aelodau, os dymunant, gofrestru buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill sydd y tu allan i'r categorïau gorfodol, neu nad ydynt yn bodloni'r trothwyon ar gyfer cofrestru gorfodol o dan y categorïau hynny.

**69.** Yn wahanol i'r categorïau 'amrywiol' yn Nhŷ'r Cyffredin a Chynulliad Gogledd Iwerddon, nid oes rhwymedigaeth i gofrestru unrhyw fuddiannau o dan gategori gwirfoddol yr Alban, nid oes rhwymedigaeth ar yr Aelodau i gofrestru'r cofnodion hyn o fewn y terfyn amser arferol. O ganlyniad i hyn, ni all yr Aelodau fod yn destun cwyn am beidio â chofrestru rhywbeth yn y categori gwirfoddol neu am fod yn hwyr yn gwneud hynny.

**70.** Fel y nodir uchod (paragraffau 44 a 58) yng nghyd-destun Categori 10 a Rheol Sefydlog 5, mae llawer o enghreifftiau o Aelodau o'r Senedd yn cofrestru aelodaeth o sefydliadau nad ydynt wedi'u bwriadu i gael eu cynnwys o dan y categorïau y maent wedi'u rhestru. Mae yna hefyd lawer o enghreifftiau o Aelodau yn cofrestru buddiannau fel rhoddion a lletygarwch nad ydynt yn bodloni'r trothwy gwerth a fyddai'n ei gwneud yn orfodol eu cofrestru. Efallai y bydd

achosion hefyd lle byddai'r Aelodau yn dymuno cofrestru buddiant y maent yn ystyried ei fod yn berthnasol ac y byddent yn dymuno iddo fod yn y parth cyhoeddus, ond na allant wneud hynny gan nad yw'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau cofrestradwy.

**71.** Nododd y Pwyllgor y byddai cyflwyno categori 'amrywiol' o dan Reol Sefydlog 2 fel categori newydd ar yr un sail â'r lleill, yn gwneud cofrestru buddiannau o'r fath yn ddarostyngedig i'r un gofynion statudol a Rheol Sefydlog â'r categorïau presennol. Byddai hynny'n cynnwys gofyniad i ddatgan y buddiannau hynny, ac o bosibl peidio â phleidleisio ar drafodion perthnasol, gorfodi'r uchafswm cyfnod o bedair wythnos ar y mwyaf ar gyfer cofrestru buddiannau o'r fath, a'r ffaith y byddai methu â chofrestru buddiant o'r fath yn drosedd. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai cymhwyso'r amodau hynny i'r hyn a fydd, yn anochel, yn gategori buddiannau mwy penagored na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cyflwyno risgiau diangen.

**72.** Felly, penderfynodd y Pwyllgor yr hoffai weld y Senedd yn mabwysiadu model yr Alban wrth gyflwyno categori 'gwirfoddol', a fyddai'n sefyll ar wahân i'r categorïau a nodir yn Rheol Sefydlog 2. Byddai hyn yn galluogi'r Aelodau i roi yn y parth cyhoeddus ar sail wirfoddol unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill nad ydynt yn bodloni gofynion Rheol Sefydlog 2.

**73.** Gallai buddiannau o'r fath gynnwys buddiannau ariannol nad ydynt yn dod o dan unrhyw un o'r categorïau gorfodol, neu sy'n is nag unrhyw drothwyon y byddai angen eu cofrestru; neu fuddiannau aelodau o'r teulu ac eithrio partneriaid neu blant dibynnol. Byddai hefyd yn darparu lle priodol i gofnodi aelodaeth o gymdeithasau neu gyrff eraill nad ydynt yn dod o dan y gofynion Categori 10 neu Reol Sefydlog 5, a rhoddion neu letygarwch a gynigiwyd ond a wrthodwyd. Yn unol ag enghraifft yr Alban, cytunodd y Pwyllgor na fyddai cyfnod hwyaf ar gyfer cofnodi buddiannau o'r fath, a chan y byddai cofrestru'n wirfoddol, ni fyddai unrhyw gosb am beidio â chofrestru buddiannau o'r fath.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y gellir diwygio Rheolau Sefydlog i gyflwyno categori 'gwirfoddol' newydd er mwyn galluogi'r Aelodau i gofnodi unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill y maent am eu gwneud yn gyhoeddus, ond nad ydynt yn cael eu cynnwys yn unrhyw un o'r categorïau gorfodol o dan Reol Sefydlog 2. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y newidiadau i'r Rheol Sefydlog, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r Ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau yn unol â hynny.

## Cyfnod cofrestru

**74.** Yn ôl Rheolau Sefydlog y Senedd, rhaid i'r Aelodau lenwi ffurflen gofrestru, ei llofnodi a'i chyflwyno cyn pen wyth wythnos ar ôl tyngu'r llw neu roi'r cadarnhad cyfatebol. Wedi hynny, rhaid i'r Aelodau ddiweddaru'r Gofrestr o fewn pedair wythnos i unrhyw newid.

**75.** Nodwyd mewn ymatebion i ymgynghoriad cychwynnol y Pwyllgor fod gan gynghorwyr yr un cyfnod ar ôl dechrau'r swydd i gofrestru eu buddiannau ag sydd ganddynt i ychwanegu buddiannau newydd neu newid rhai sy'n bodoli eisoes unwaith y byddant yn y swydd. Mae'r dull o roi'r un cyfnod ar gyfer cofrestru buddiannau ar ôl dechrau yn y swydd, ac ar gyfer gwneud unrhyw ddiweddariadau yn cael ei ddilyn gan Seneddau eraill y DU hefyd, ac mae gan bob un ohonynt gyfnodau o naill ai 28 diwrnod neu fis.

**76.** Ystyriodd y Pwyllgor newid y cyfnod cofrestru cychwynnol i un mis, er mwyn sicrhau bod y Senedd yn unol â seneddau eraill. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor y byddai hyn yn rhoi mwy o faich ar yr Aelodau yn ystod cyfnod prysur eisoes ar ddechrau Senedd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ddechrau'r Seithfed Senedd lle bydd angen cefnogi nifer fawr o Aelodau newydd i gofrestru eu buddiannau'n briodol. Am y rhesymau hyn, penderfynodd y Pwyllgor yn erbyn cynnig newid y cyfnod cofrestru cychwynnol.

## Trothwyon

**77.** Mae'r gofynion ynghylch rhoddion a lletygarwch (Categori 4), cyfranddaliadau (Categori 8), a thir ac eiddo (Categori 9) yn cynnwys trothwyon ar gyfer cofrestru sy'n seiliedig ar ganran benodol o gyflog blynyddol yr Aelodau.

**78.** Nododd y Pwyllgor, gan fod y trothwyon wedi'u clymu i gyflogau'r Aelodau, y gallant newid sawl gwaith yn ystod Senedd – fel arfer bob blwyddyn yn unol â phob Penderfyniad newydd a gyhoeddir gan y Bwrdd Taliadau. Yn Senedd yr Alban, lle mae trothwyon hefyd yn gysylltiedig â chyflogau'r Aelodau, mae'r swm yn benodedig drwy gydol cyfnod Senedd yn seiliedig ar gyflogau'r Aelodau yn syth ar ôl etholiad.

**79.** Ystyriodd y Pwyllgor mai model yr Alban oedd yr un mwyaf priodol i'w fabwysiadu gan y Senedd a chafodd y cynnig hwn ei gynnwys yn ei ail ymgynghoriad. Yn yr ymatebion, croesawodd y Llywydd ddull symlach a thryloyw, fel y gwnaeth y Prif Weithredwr a'r Clerc.

**Casgliad 5.** Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r trothwyon ar gyfer cofrestru barhau i fod ynghlwm wrth ganran o gyflogau'r Aelodau, ond y dylid eu pennu ar ddechrau

pob Senedd i roi mwy o sicrwydd i'r Aelodau, a thryloywder i'r cyhoedd ynghylch y trothwyon sy'n berthnasol am hyd Senedd. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r Canllawiau i roi'r newid hwn ar waith.

# Atodiad 1: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CFS 01** | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| **CFS 02** | Comisiynydd Safonau Moesegol mewn Bywyd Cyhoeddus yn yr Alban |
| **CFS 03** | Grŵp Llafur y Senedd |
| **CFS 04** | Transparency International UK |
| **CFS 05** | Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn Senedd Cymru |
| **CFS 06** | Comisiynydd Safonau'r Senedd |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llythyr gan y Comisiynydd Safonau | 20 Mawrth 2025 |
| Llythyr gan y Llywydd | 25 Mawrth 2025 |
| Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd | 25 Mawrth 2025 |
| Llythyr gan Grŵp Llafur y Senedd | 26 Mawrth 2025 |